

Clwyd

Darganfod Bryniau

Am Ddim

What lies beneath?

Archaeological secrets unearthed

Back where they Bee-long

The return of the Native Honeybee

Following Acorns

Exploring the Offa's Dyke Path is easier
than you might think



Arweiniad i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE)



Croeso i 'Darganfod Bryniau Clwyd'

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol sy'n cael ei gwarchod yn genedlaethol ac sy'n annwyl i'r bobl leol yw Bryniau Clwyd. Tybir fod yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn rhai o dirweddau mwyaf gwerthfawr Prydain. Fel y parciau cenedlaethol mae nodweddion arbennig yr ardaloedd hyn yn cynrychioli rhannau gorau a mwyaf gwerthfawr ein cefn gwlad.

O'r trefi a'r pentrefi cyfagos fel Prestatyn, yr Wyddgrug a Rhuthun gellir gweld sut yr ymddangosodd Bryniau Clwyd o lefel y môr, maent yn drawiadol o'u gweld o Gilgwri, Glannau Merswy a Sir Gaer hefyd. Mae Bryniau Clwyd yn ffurfio cadwyn o fryniau sy'n 35km o hyd o'r gogledd i'r de gan ymestyn i 160 km² a chodi i 554 metr ar gopa Moel Famau.

Mae'r bryniau'n ymestyn o Ddyffryn Clwyd yn y gorllewin i Aber yr Afon Dyfrdwy yn y dwyrain ac o Fryn Prestatyn yn y gogledd i Nant y Garth yn y De. Uwchben y caeau a'r coetiroedd sydd ar lethrau'r moelydd saif y rhostiroedd grug agored ar y grib uchel. O dro i dro gwelir creigiau calch yn brigo i'r wyneb ar y llethrau coediog sy ar ymylon yr ardal, dyma dir amaeth cyfoethog sy'n flaendir tlws i'r moelydd.

Bu pobl yn ymweld â Bryniau Clwyd ers cannoedd o flynyddoedd am y cefn gwlad, y bywyd gwyllt, a'r golygfeydd. Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Sir Fflint, tîrfeddianwyr a phobl broffesiynol eraill sy'n rheoli'r AHNE, nid ar gyfer y gadwraeth a'r dreftadaeth yn unig ond hefyd ar gyfer y bobl leol a'r ymwelwyr. Bydd tua hanner miliwn o bobl yn ymweld bob blwyddyn, yn enwedig â'r ddau barc gwledig Loggerheads a Moel Famau. Rhed llwybr Clawdd Offa ar hyd rhan eang o'r gefn gan gynnig llwybrau tuag at rannau o'r cefn gwlad mwyaf gwyllt. Yn ogystal â'r dirwedd odidog ceir yma lety o safon uchel, gweithgareddau, bwyd a chroeso sydd yn dod at ei gilydd i lunio rhan o brofiad Bryniau Clwyd.

O fewn y bartneriaeth rydym yn gwarchod, gwella a chodi ymwybyddiaeth o'n bioamrywiaeth gyfoethog, y nodweddion daearegol trawiadol a'r trysorau archeolegol. Gweledigaeth ein twristiaeth yw cadw ansawdd profiad Bryniau Clwyd er mwyn i'r to sy'n codi ei ddarganfod a'i fwynhau. Mae'r ansawdd uchel hwn yn ymwneud ag agweddau amgylcheddol ac ysbrydol yr ymweliadau gan gynnwys trwsio llwybrau a dreuliwyd drwy fynych droedio, hyrwyddo digwyddiadau cyffrous, lleoliadau sy'n ateb gofynion ymwelwyr, antur gyffrous am dri diwrnod, wythnos o dderbyn tyllino ymlaciol, myfyrto ac ymweld â lleoedd sanctaidd.

Gobeithio bydd yr arweiniad hwn yn cyfleu rhywfaint o naws ein Hardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r cyffiniau gan eich annog i gymryd rhan yn yr hyn sydd ar gael.

Vanessa Warrington, Swyddog Cefn Gwlad

Tim AHNE, Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, Parc Gwledig Loggerheads, yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

☎ 01352 810614 Ebo: clwydianrangeaonb@denbighshire.gov.uk

www.clwydianrangeaonb.org.uk

www.denbighshire.gov.uk/countryside

www.ridetheclwyds.com

www.loggerheads-wales.co.uk

Mae'r farn a fynegir gan y cyfranwyr yn eiddo iddynt eu hunain.

Ni all Cyngor Sir Ddinbych dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wallau nac esgeulustod



cynnwys

2 Croeso i
'Darlunio Bryniau Clwyd'

4 Tan ac lâ

6 Mynd am y Cyffro

8 Roeddwn i'n adnabod
Moel Famau'n


10 Dilyn y Fesen

12 Beth sy'n cuddio o dan y tir?

15 Tro yn yr Hydref

18 Y wenynen yn ôl yn ei
chynefin


Bleary-eyed?



Teithiwch ar y bws yn Sir Ddinbych a helpu i leihau llygredd!

 **Grŵp Cludo Teithwyr,**
Cyngor Sir Ddinbych,
 **01824 706968**
www.denbighshire.gov.uk/highways

Cyngor Sir y Fflint,
 **01352 704035**
www.flintshire.gov.uk





Tan acIâ

Llunio tirwedd Bryniau Clwyd

Moroedd dyfnion yn cael eu chwalu a'u plygu gan ddaeargrynfeidd, llosgfynyddoedd yn ffrwydro a lludw poeth yn disgyn dros y tir a'r môr; moroedd trofannol yn ferw o fywyd; deltâu a chorsydd aruthrol a mwsoglau enfawr; anialwch eang coch a phoeth gydag ambell lif yn golchi bywyd ymaith, ac yn ddiweddar oll daeth haenau anferth o rew i gerflunio Bryniau Clwyd.

Dyma'r digwyddiadau a'r grymoedd oedd yn gweithredu wrth i Gymru symud ar draws y glôb tua'r Gogledd filiynau lawer o flynyddoedd yn ôl gan ffurfio nifer o fathau o greigiau a greodd dirwedd nodweddiadol Bryniau Clwyd.

Amser maith yn ôl.....

490 o filiynau o flynyddoedd yn ôl Y Cyfnod Ordoficaidd

Draw ymhell yn hemisffer y de gorweddai Gogledd Cymru o dan fôr dwfn. Symudai anifeiliaid fel pysgod cregyn, creaduriaid fel sgwid a'r anifeiliaid bach - diflanedig erbyn hyn - a elwir yn graptolïtau gyda llif y dwr. Weithiau byddai ffrwydradau folcanig lle mae Eryri heddiw gan dasgu lludw poeth i'r môr a chladdu nifer o'r anifeiliaid.

Deillio o'r cyfnod hwn mae creigiau a ffosiliau hynaf Bryniau Clwyd, a gwelir nifer ohonynt i'r de o bentref Llandegla.

420 o filiynau o flynyddoedd yn ôl Y Cyfnod Silwraidd

Yn y mwd ar waelod y môr trigai rai anifeiliaid rhyfedd a rhyfeddol; y riffiau cwrel, pysgod cregyn a chrinoidiau (lilis y môr) oedd â nifer o freichiau bwydo pluog yn chwifio er mwyn hidlo bwyd o'r dwr oedd o'u cwmipas. O fewn prif gefnen Bryniau Clwyd, sy'n cynnwys Pen y Cloddiau, Moel Arthur, Moel Famau ac allan i Ddinas Brân ceir creigiau a oedd ar un cyfnod yn rhan o'r llaid môr dwfn hwn. Sut y gwyddom hyn i gyd? Un o'r ffyrdd gorau i osod dyddiad ar greigiau yw drwy'r ffosiliau Graptolit. Datblygodd yr anifeiliaid hyn yn gyflym dros ben ac felly defnyddir y newidiadau a ddigwyddodd i'w cyrff i ddarllen oedran y creigiau.

Ar ddiwedd y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif fe dreuliodd daearegwyr arloesol o ferched rai





blynyddoedd yn chwilio am drefn gymhleth y creigiau ym Mryniau Clwyd. Ystyriodd eu Hathro fod hyn yn waith oedd yn 'addas ac yn briodol i ferched' am ei fod yn gofyn am amynedd a dyfalbarhad'. Tybir i'r planhigion fasgwlwr (planhigion y tir sydd â meinwe sy'n cludo bwyd) esblygu yn ystod y cyfnod Silwraidd. Darganfuwyd rhai o ffosiliau cynharaf y planhigion fasgwlwr yn yr 20fed ganrif gan yr un ferched o ddaeargwyr.

Cafodd y creigiau Silwraidd ac Ordoicaidd eu cywasgu gan symudiadau'r ddaear gan ffurfio llechi sy'n dal i gael eu cloddio ar Fwlch yr Oernant a rhannau eraill o Ogledd Cymru hyd heddiw.

350-290 o filiynau o flynyddoedd yn ôl y Cyfnod Carbonifferaidd

Yn ystod rhan gynnar y cyfnod Carbonifferaidd, roedd Cymru wedi symud tua'r trofannau, i'r de o'r cyhydedd, roedd môr cynnes trofannol yn gorchuddio'r tir. Roedd y môr hwn yn fewn o bysgod cregyn a thirlobitau. Dros gyfnod o amser fe ostyngodd lefel y môr a ffurfiodd afonydd anferth yn ddeltau ar y glannau gyda thwynau'n tyfu ac yn ffurfio tywodfeini. Yn ddiweddarach, tyfodd

corsydd a choedwigoedd enfawr ar y deltau. Yna bu farw'r fforestydd a chael eu claddu a'u cywasgu gan ffurfio glo. Ffurfiwyd tarennydd trawiadol yr Eglwyseg y tu uchaf i Langollen, ar Fryn Prestatyn Graig Fawr, Gallt Melyd a Moel Hiraddug yn y cyfnod hwn. Yn wir, enwyd un o'r pysgod cregyn ar ôl tref Llangollen.

200 o filiynau o flynyddoedd yn ôl Permian - Thiasic Periods

Erbyn hyn roedd Cymru ar yr un lledred a Gogledd Affrica a dyma pryd y cafodd tywodfeini coch Dyffryn Clwyd eu dyddodi gan greu anialwch anferth. Rhannwyd Hiraethog oddi wrth Fryniau Clwyd gan adael dyffryn hollt bychan rhyngddynt, dyffryn tebyg i Ddyffryn Holit Mawr Dwyrain Affrica. Mae Ffawt Dyffryn Clwyd sydd â llethrau serth iawn yn ffurfio ochr orllewinol Bryniau Clwyd.

2 o filiynau o flynyddoedd yn ôl Y Cyfnod Cwaternaidd

Symudodd haenau anferth o ia dros Gymru nifer fawr o weithiau gan gerfio'r dirwedd. Yn y cyfnod rhewlifant diwethaf roedd haen

drwchus hyd at 1 kilometr o drwch yn gorchuddio'r ardal gan lyfnhau'r bryniau a llunio'r dyffrynnoedd a'r cymoedd. Pan doddodd yr ia tua 14,000 o flynyddoedd yn ôl gadawyd clogfeini (meini dyfod), tywod, gro a lleidiau gan ffurfio tirweddau nodweddiadol fel tirwedd Dyffryn yr Afon Chwiler. Tybir i hwn gael ei ffurfio drwy i'r afon lifo o dan yr ia.

Mae'r prosesau daeargol wrthi'n ffurfio AHNE Bryniau Clwyd, ond yn araf dros ben. Er bod y rhew, yr eira a'r glaw yn gweithio ar y dirwedd, pobl sy'n cael y dylanwad mwyaf. Y ddaearg sydd yn sail nodweddion arbennig bryniau Clwyd, a rhaid ei rheoli er mwyn gwarchod a gwella'r dirwedd.

Jacqui Malpas, Geodiversity Officer for the Clwydian Range AONB will be running events throughout the year. For details visit www.denbighshire.gov.uk/country-side-or-email-jmalpas@geodiversity.co.uk



Ar ben fy rhestr o 'Bethau i'w gwneud Acyn imi fod yn ddeugain oed' oedd abseilio.

Dw i wedi bod yn ymweld â Loggerheads a Moel Famau ers pan roeddwn i'n blentyn ac erbyn hyn dw i'n mynd â'r plant, y cwn, y wraig a'r nain a'r taid ac ymwelwyr o dro i dro. Mae unrhyw un sydd wedi bod yno yn deall pa mor rhyfeddol yw'r olygfa, y tawelwch a'r syniad o le agored yn y ddau barc gwledig. Felly am brofiad o abseilio 120 o droedfeddi beth well na'r ardal gyfarwydd sydd â'r enw dychrynilyd Ceubwll y Diafol ym Mharc Gwledig Loggerheads.

Er nad oes gen i gydbwysedd o gwbl ac arnaf ofn uchder, nid oeddwn am i hynny fy rhwystro. Trefnodd abseilUK.com, a leolwyd yn Loggerheads, yr holl beth. Roedd eu gofal am ddiogelwch wedi gwneud argraff arnaf, a doedd dim angen imi fod yn ofnus. Y rhan fwyaf ddychrychllyd oedd pwyso yn ôl dros yr ymyl gyda 120 troedfedd o ddibyn rhyngof i a'r ddaear galed - byddai'n fwy na hergwdd petawn yn syrthio.

"Gollwng dy hun yn raddol i lawr y rhaff!" dyna'r peth nesaf imi'i glywed gan yr hyfforddwr Frank. (Wna i ddim dweud beth oedd fy ymateb cyntaf i'r cyfarwyddiadau hyn!).

Felly, gan gysuro fy hunan fy mod ynghlwm wrth raff arall oedd yn y top, dyma fi'n pwyso yn ôl ymhellach ac ymhellach nes imi fod tua 80gradd o wyneb y graig. Y cyfarwyddiadau nesaf oedd 'Rwan cama i lawr o'r graig sy'n bargodi'.

Ar ôl cyfnod oedd yn ymddangos fel oes roeddwn i dros y rhwystr hwnnw ac, er mawr syndod imi, yn symud i lawr y rhaff yn hawdd. Prin oedd angen defnyddio fy nghoesau o gwbl - pwysig iawn am eu bod yn dal i grynu! I lawr a fi gan ymlacio ychydig a dechrau mwynhau'r profiad yn fwy bob munud. Gallwn edrych i ffwrdd oddi wrth y graig a'r mwsawl oedd o fy mlaen erbyn hyn ar yr olygfa, yr ogofeydd a'r coed. Doeddwn i ddim am i'r profiad ddod i ben ac roedd fy ngwên yn lledu'n fwy ac yn fwy.

Ar ôl cyrraedd y gwaelod cefais gymeradwyaeth wresog. Sôn am Lif o Adrenalin!

Gan mai fi oedd yn trefnu, fi oedd i fynd yn gyntaf felly cefais y pleser o wlio'r ffrindiau'n fy nilyn i lawr y graig. Roedd chwech ohonom i gyd, yn gydweithwyr ac yn bobl broffesiynol oedd yn benderfynol o wneud rhywbeth heriol bob dau fis. Roedd gweddill y tîm yn ymddangos yn rhyfeddol o ymlaciol wrth ddisgyn ond, ar ôl siarad wedyn, cyfaddefodd y mwyafrif eu bod hwythau wedi teimlo'n ofnus arswydus.

Cawsom hwb seicolegol o'r profiad abseilio. Mwynheais innau'r boddhad sy'n deillio o lwyddo i wneud rhywbeth rydych chi wedi bod eisiau'i wneud am beth amser. Rydw i'n gredwr mawr mewn gosod amcanion personol a'u cadw yn y cof bob dydd. Rydw i wedi bod yn trio trefnu abseilio am 18 mis ac ar brydiau'n amau na fyddai'n digwydd o gwbl. Mae'n gofyn am ddyfalbarhad a chynllunio gofalus ond, gyda digon o benderfyniad, fe all ddigwydd.


Yn sicr, mi allwn argymhell abseilio i unrhyw un.

Ewch i www.abseilUK.com i gael gwybod mwy.



Mynd am

Abseilio ar Fryniau Clwyd



y Cyffro

Andy Boardman,
Wreccsam

Roeddwn i'n adnabod Moel Famau'n dda neu'n tybio fy mod i

Wrth imi adael y car cefais y teimlad fy mod yn gadael mwy na'r car y tu ôl imi ac yn troi fy nghefn am ychydig oriau ar ferw bywyd bob dydd. Filtir neu ddwy yn unig i ffwrdd roedd rhesi o geir a chiwiau o droliau mewn archfarchnadoedd heb sôn am swm di-baid bywyd heddiw.

Dim ond o fewn llathenni i'r maes parcio teimlais fy mod wedi cyrraedd byd arall. Roedd haul isel yr hydref yn bwrw cysgodion hir dros Ddyffryn Clwyd gan roi i bob cae a chlawdd a choeden a thyddyn rhyw eglurder rhyfedd a naws euraidd anghyffredin.

Yn ystod yr awr neu ddwy oedd ar gael y prynhawn hwnnw fe benderfynais fynd am dro cymharol fyr i Dwr y Jiwbiil ar ben Moel Famau, man uchaf Bryniau Clwyd. Cerddais y llwybr hwn droeon ac mae yma rywbeth gwahanol imi bob tro. Bydd y golau, yr awel, ac weithiau'r glaw yn rhoi rhyw naws ryfedd i Foel Mamau.

Ar ben y bryn cyntaf gwelais un o'r Wardeniaid yn brasgamu at ei bengliniau mewn grug tuag at y llwybr. Pan ddaeth yn agos ataf ar hyd y llwybr amlwg roedd yn ei ddilyn sylwais fod ei esgidiau a gwaelodion ei glos yn wlyb ac yn frith o hadau grug. Roedd yntau'n anelu at y copa felly dyma ni'n cydgerdded. Dywedodd Rhun wrthyf mai fo oedd y Warden ar gyfer y rhostir a'r goedwig gyfagos a'i fod allan am y prynhawn yn edrych ar y grug a gafodd ei dorri'n ddiweddar ac yn chwilio am fannau eraill i'w llosgi.

Roedd hynny'n swmio braidd yn eithafol i mi, ond mae'n debyg bod rhaid i'r wardeniaid dorri neu losgi'r grug bob blwyddyn er mwyn hyrwyddo'r tyfiant newydd. Mae'r tyfiant hwn yn lles i'r defaid (dydy'r hen rug caled ddim yn eu denu) ac i'r adar prin sy'n nythu ymysg yr hen blanhigion grug ond sydd ag angen grug ifanc a llus i'w fwyta.

Roeddwn wedi sylwi ar y clytwaith o leiniau oedd wedi'u torri a'u llosgi, ond heb ddeall yn union beth oedden nhw. Dywedodd Rhun fod rhywun wedi dweud mai canlyniad glanio UFOs oedd y marciau!

Yn ôl felly at yr adar prin sy'n cael darparu ar eu cyfer yma. Dywedodd Rhun mai ar gyfer y rugiar goch a'r rugiar ddu y gwneir y rhan fwyaf o'r

gwaith er bod rhywogaethau eraill fel boda tinwyn a chudyll bach yn elwa hefyd. Roeddwn i wedi cymryd mai ar gyfer eu saethu y magwyd y grugieir ac y gellid magu mwy ohonyn nhw a'u hailgyflwyno yma. Eglurodd Rhun mai adar gwyllt ydyn nhw sy'n dibynnu ar yr amodau iawn ar y rhostir ac ymyl y goedwig i fagu cywion, a bod yr amodau cywir hynny'n prysur ddiflannu drwy'r wlad a'r rugiar hithau'n diflannu o'r herwydd. Yn y gorffennol roedd

ciperiaid ar y stadau mawr yn Oes Fictoria yn treulio amser ac arian i sicrhau fod yr amodau iawn ar gael i'r adar ond wrth i'r gwaith yma ddod i





ben fe leihodd niferoedd yr adar. Ar ddiwedd yr 20 fed ganrif roedd y rugiar bron wedi darfod o'r tir yng Nghymru.

Dangosodd Rhun mwy o'r gwaith rheoli wrth inni gerdded tuag at Dwr y Jiwbilí. Roedd llinell hir y coniferau sydd ar ymyl y goedwig wedi'u tocio. Roedd yr holl ganghennau isel wedi cael eu torri gan ei wneud yn haws i'r adar symud yn rhydd rhwng y goedwig a'r rhostiroedd. Roedd ardaloedd mawr o goedwig wedi'u clirio'n llwyr hefyd er mwyn ymestyn y rhostir i mewn i'r blanhigfa coniferau. Gwnaed nifer o dyllau mawr yn ddiweddar i gasglu'r dwr glaw ac i fod yn llynnoedd i'r adar yfed gan hybu tyfiant planhigion y gwlypdir fel plu'r gweunydd sy'n fwyd i'r grugieir.

Wrth inni agosáu at y copa trodd y llwybr yn serthach a ninnau'n cael saib i gael ein gwynt gwelsom Rhuthun i lawr yn y Dyffryn a Mynydd y Berwyn a Llantysilio yn y pellter yn edrych yn agos iawn atom yn y golau hydrefol clir. I'r naill ochr a'r llall roedd dwy fryngaer oes yr haearn; Moel y Gaer a Foel Fenlli a'r ffosydd serth a chloddiau'r gaer yn loyw yng ngolau isel diwedd y prynhawn.

Y tu ôl inni roedd pump o fynau crynion anferth ar fin y llethr. Cawsant eu casglu yn rhan o waith torri grug. Am gynaliadwyaeth! – Roedd Rhun a'r gwirfoddolwyr yn defnyddio'r byrnau hyn i drwsio ymyl y llwybr gan orchuddio'r erydu a chulhau'r llwybr. Dyna syniad gwych! Dangosodd Rhun ble roeddynt wedi defnyddio carped trwchus y grug yn uwch i fyny'r llwybr. Roedd hyn wedi culhau'r llwybr i dan hanner ei led ac, o edrych yn agos, gallwn weld planhigion yn egino. Gwaith caled, ond roedd y canlyniadau'n effeithiol dros ben. Ar ôl cyrraedd y copa aeth Rhun ar lwybr y goedwig. O Dwr y Jiwbilí edrychais innau'n ôl ar hyd y gefnen roeddwn wedi'i cherdded. Roeddwn yn edrych ar olygfa wahanol iawn. Roedd Rhun wedi rhoi hanes y mynydd imi a bellach nid yr anialwch gwyllt roeddwn yn ei weld ond y dirwedd fregus iawn sy'n derbyn gofal a rheolaeth fanwl. Ni ddychmygais i erioed bod rhai o adar a phlanhigion prinnaf Cymru yn byw yma

Er mwyn ymweld â Pharc Gwledig Moel Famau dilynwch arwyddion y ffordd A494 (yr Wyddgrug - Rhuthun). Mae taflenni ar gael oddi wrth www.denbighshire.gov.uk/countryside neu o barc gwledig Loggerheads.

■ Thomas Middleton, yr Wyddgrug



Dilyn y Fesol

Darganfod Llwybr Clawdd Offa - y



Roeddwn i'n gallu synhwyro y byddai hi'n ddiwrnod da - yn edrych ymlaen at daith gerdded hir, golygfeydd panoramig a rhagolygon o dywydd da a hyn i gyd yn gwneud i'r galon guro'n gyflymach. Roeddwn wedi addo dro'n ôl i fynd â Glyn (fy nghyfaill nad yw'n gerddwr) ar hyd Llwybr Clawdd Offa ar ôl i'r tywydd wella (lluniwyd y cynllun un noson dywyll o aeaf yn y dafarn).

Felly dyma ni'n dau yn dod oddi ar y bws wrth ochr y ffordd ym Modfari yn rhan ogleddol Bryniau Clwyd, yn ein dillad cerdded ac yn barod am yr her o'n blaenau. Taith linellol oedd hon i fod i'r de ar hyd Llwybr Clawdd Offa gan groesi rhai o rannau gorau ac uchaf Bryniau Clwyd. Dydy'r Llwybr mewn gwirionedd ddim yn dilyn y Clawdd Offa gwreiddiol (codwyd gan Offa, Brenin y Mers tua 790AD i gadw'r Cymry allan). Mae'r Clawdd a godwyd yn dod i ben i'r gorllewin o Wrecsam a'r Waun, ond â'r Llwybr yn ei flaen gan ddilyn y golygfeydd gorau. Yr amser a osodwyd ar gyfer yr her oedd chwe awr gan ddal y bws yn Clwyd Gate i'n tywys

ni'n ôl i Loggerheads a'r car. Dylai hyn fod yn ddigon o amser i gwblhau y rhan o'r Llwybr roeddem wedi'i ddewis. Llwybr, Llwybr Cenedlaethol sy'n ymestyn am 171 o filltiroedd ar hyd gororau Cymru a Lloegr o Brestatyn i Gas-gwent. Yn ôl a ddeallaf, mae dros 5000 o bobl bob blwyddyn yn cwblhau'r daith i gyd.

'Felly ble rydyn ni'n mynd?' gofynnodd Glyn, gan edrych o gwmpas ar ymyl y ffordd 'Edrycha am y fesol!' a chyn hir roedd o wedi'i deall hi. Dros ei ysgwydd roedd arwydd pren a saeth a disg gwyrdd gyda mesen wen arno. 'Dim ond dilyn y mês sydd angen - logo'r Llwybr Cenedlaethol. Allwn i ddim mynd ar goll, mae'r arwyddion yn dda.' meddai fi. Ar ôl croesi'r bompren dros yr Afon Chwiler a dechrau dringo'r bryn i Foel y Parc cyn hir roeddem ar laswellt esmwyth a rhedyn gyda defaid o'n cwmpas. Ymhen chwarter awr gwelsom olygfeydd trawiadol o Ddyffryn Clwyd a thref Dinbych islaw.

Mae'n ymddangos bod lle i bawb i fyny yma.

en

n haws nag y tybiwch

Rhys Huws,
Sychedyn



Croesi Star Crossing wedyn, hen ffordd y Porthmyn i'r dwyrain, a dros gamfa i Barc Gwledig Moel Famau. Synnais o weld fod y parc yn ymestyn mor bell i'r gogledd a hyn (dair milltir o Foel Famau) a'i fod yn wahanol iawn i'r Parc Gwledig sydd ymhellach tua'r de. Dringo serth byr wedyn i ben Moel Arthur, bryngaer arall Oes yr Haearn. Mae'n amlwg pam dewisodd pobl y lleoliad yma i godi bryngaer - dibyn ar dair ochr a golygfeydd pell i bob cyfeiriad. Â Llwybr Clawdd Offa o gwmpas Moel Arthur ond mae dringo i'r copa yn wirioneddol werth weil. Gallai Glyn a finnau weld yn glir tuag at Eryri yn y pellter wrth inni edrych i lawr dros y Dyffryn.

Wedi inni ddod i lawr o Foel Arthur dyma ni'n dringo i Foel Llys y Coed lle roeddem yn teimlo ein bod ar ben y byd. Roedd hi'n wlad agored iawn a'r rhostiroedd grug yn ymestyn ymhell o'n blaenau. Ar ôl cyrraedd copa Moel Famau, man uchaf Bryniau Clwyd, cawsom ein cinio ar ben olion Twr y Jiwbilî (oedd yn 180 troedfedd pan adeiladwyd i gofio 50mlynedd teyrnasiad y Brenin George III). Gwelsom Eryri, Cader Idris a hyd yn oed Cadeirlan Lerpwl yn hawdd. Dyna dâl gwych am ein hymdrechion. Drwy'r brithwaith o rug oedd wedi'i dorri (i wella cynefin y Rugiar Ddu)

gallwn weld cam nesaf Llwybr Clawdd Offa a'r teuluoedd, parau a cherddwyr profiadol yn dringo'n raddol o'r prif faes parcio i fyny i Dwr y Jiwbilî.

Ond nid maes parcio Bwlch Pen Barras oedd diwedd y daith, un dringfa eto a - rydych chi'n iawn- bryngaer arall a llwybr yn ymddolenu o gwmpas rhagfuriau Moel Fenlli. I'r ochr ddeheuol o Foel Fenlli gadawsom y berw y tu ôl inni a chael tro dymunol ar i lawr dros gaeau gwyrdd o gwmpas Moel Eithinen i Clwyd Gate. Mae'r llwybr yn ein tywys ar hyd ffordd brysur A494 yr Wyddgrug - Rhuthun i'r Clwyd Gate i gyrraedd pen ein taith. Roedd deugain munud tan y bws i fwynhau llymaid haeddiannol. Er ei fod wedi blino roedd gwên anferth ar wyneb Glyn a'r ddau ohonom yn cytuno ein bod wedi cael diwrnod gwych ar drywydd y mës bach gwyrdd.

Ar ol gofalu cau'r giât y tu ol inni dyma ni'n dechau dringo'n raddol dros dir amaeth agored i gopa Moel Penycloddiau sy'n un o bedair bryngaer Oes yr Haearn ar y rhan hon o Fryniau Clwyd. Mae'n rhyfedd meddwl bod pobl wedi bod yn byw yma 2500 o flynyddoedd yn ôl mewn cytiau bychain gyda chloddiau uchel o'u cwmpas. Da oedd sylwi ar y gwaith i amddiffyn yr olion. Mae'r ffrâm o gerrig yn gwarchod y rhan yma o'r heneb oddi wrth y miloedd o draed sy'n croesi'r cloddiau.

Aiff y llwybr ar ei waered drwy Goedwig gonifferau Llangwyfan sy'n eiddo Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Roedd hi'n ymddangos bod tân mawr wedi bod yma yn ddiweddar ond roedd y rhodyn a'r grug a phlanhigion eraill yn aildyfu drwy'r ddaear ddu. Roeddwn yn gobeithio nad rhywun di-hid yn taflu sigarét oedd achos y tân. Aethom i gysgod y goedwig a'r haul yn saethu pelydrau drwy'r coed gan oleuo'r llwybr a'r mes. Dyna gyferbyniad â phen y bryniau agored ar Ben y Cloddiau.

I gael gwybod mwy am gerdded Llwybr Clawdd Offa, gan gynnwys map ac arweinyfrau, tarwch heibio'r Ganolfan Ymwelwyr ym Mharc Gwledig Loggerheads ☎ 01352 810586 (y penwythnosau a'r gwyliau) a 01352 810614 (oriau swyddfeydd ac allan o'r tymor). www.nationaltrail.co.uk





Beth sy'n cuddio o dan Datguddio Cyfrinachau Archeoleg

Rhostiroedd grug sy'n gorchuddio'r rhan helaethaf o Fryniau Clwyd. Heddiw, nid oes llawer o bobl yn byw ar ochrau a phennau'r brynau, ond 2000 o flynyddoedd yn ôl roedd teuluoedd yn byw mewn tai crynion o fewn bryngaerau ar y copaon mwyaf gwyllt.

Bu'r Gwasanaeth Cefn Gwlad a'n partneriaid yn gweithio i ddatblygu'r project y Grug a'r Caerau. Bydd hyn, gobeithio, yn



dod a £1.5 miliwn i'r ardal i warchod ac i godi ymwybyddiaeth o'r bryngaerau rhyfeddol hyn a'r dirwedd grug drawiadol. Gan ddysgu oddi wrth gyfres deledu Channel 4 'Time Team' yn ystod yr haf dyma ni'n penderfynu estyn gwahoddiad i archeolegwyr ac aelodau'r cyhoedd i ddod

i ben tair bryngaer i wneud 'cloddio rhithwir' ac i ddarganfod gwybodaeth am y bryngegyrdd o dan y pridd.

Y gair technegol am yr hyn roeddwn ni'n ei wneud yw 'Tirfesur Geoffisegol'. Mae nifer o ddulliau gwahanol a thechnegau geoffisegol a bydd pob un yn rhoi inni 'ddarlun' o beth sydd o dan y pridd heb orfod cloddio'r safle. Defnyddid dau ddull ar y bryngegyrdd.



...n y tir?

Tirfesuriad Gwrthedd – mae hyn yn mesur gwrthedd y ddaear. Po sychaf y tir po fwyaf y gwrthedd. Ac mae Magnetometri yn mesur nodweddion magnetig y ddaear. Mae'r dechneg yn nodi rhannau a gafodd eu llosgi, a metal, ond rhaid i'r un sy'n ei ddefnyddio ofalu nad ydynt yn gwisgo dim sy'n cynnwys unrhyw fetel (hyd yn oed y ddolen fetel ar esgidiau neu fframiau sbectol).

Bûm yn edrych ar ddwy fryngaer oes yr Haearn ar Fryniau Clwyd; Moel Fenlli a Moel Pen y Cloddiau a Chaer Drewyn ger Corwen. Roedd 40 o bobl yn y grwp a'u hoedran o 13 i 70, archeolegwyr proffesiynol oedd yn eu harwain. Dechreuodd bob dydd drwy roi cyfarwyddyd ac yna 3 awr o dirfesur yn y tywydd gwlypaf a mwyaf gwyntog erioed. O'r diwedd deuthum yn ôl am baned a bu'r arbenigwyr yn llwytho i lawr y darganfyddiadau i'r cyfrifiadur a ninnau'n gallu gweld canlyniadau ein gwaith a chael copi i fynd adref.

Foel Fenlli - hawlfraint Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru A Chofadeiladau Hanesyddol Cymru.

Aethom a'r grwp i fyny Moel Fenlli i gofnodi adeiladwedd yr wyneb a darganfod beth oedd maint y twmpath Oes yr Efydd oedd o dan yr wyneb.

"Bu inni ddarganfod fod y twmpath yn ymestyn ymhellach nag sy'n ymddangos ar yr wyneb. Roedd y tywydd yn oer ac yn wyntog dros ben ond eto roeddem yn llwyddiannus yn ein tasg." Jonathan Tipping.

"Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n ymddiddori mewn archeoleg ddilyn rhaglen Time Team. Pan gefais gyfle i fod yn rhan o'r peth ei hunan doeddwn i ddim am ei droi i lawr. Aethom i gofrestru gyda brwdfrydedd am le yn yr archwiliad a chawsom mo'n siomi." Pauline Emery a Graham Humphreys, Pen y Cloddiau.

"Ar ddiwedd y bore roedd gennym fap tri dimensiwn o'n rhan ni o'r gaer. Ar ôl cinio



fe wnaethom geoffiseg oedd yn hwyl ac yn gyflym gyda phawb yn rhoi cais arno a heb fawr o wallau. Roeddem yn falch iawn o'r hyn roeddem wedi'i gyflwyno am fod y rhan fwyaf ohonom yn gwneud y gwaith am y tro cyntaf.." Sioned & Owen Petrie, Caer Drewyn.

"Y peth mawr sy'n aros yn y cof am y diwrnod hwnnw ydy'r gwynt mawr, ond roedd popeth yn hwyl ac yn addysgol. Rydw i'n hoffi cerdded ac mi ddysgais lawer am geoffiseg nad oeddwn yn ei wybod o'r blaen. Roedd yr olygfa'n braf." Phillip Skippon, ar brofiad gwaith yng Nghaer Drewyn.

Roedd y digwyddiadau hyn yn llwyddiant aruthrol a bu'r canlyniadau'n sail i ran o'r cais a anfonwyd i'r Gronfa Lotri Treftadaeth yn Ionawr 2007. Os bydd hyn yn llwyddiannus gobeithiwn y gallwn gynnal mwy o'r gweithgareddau hyn, felly cadwch eich llygaid ar agor.....

I gael gwybod mwyn neu i ddilyn y bid ewch i
www.denbighshire.gov.uk/countryside.

■ Helen Mrowiec, Y Swyddog Projectau



Am wybodaeth ar y Cefn Gwlad yng Nghymru gan gynnwys y tir mynediad newydd a'r Cod Cefn Gwlad, ewch i

www.ccw.gov.uk




Mynd â'ch gwynt...

- ▶ Llwybrau beiciau mynydd ar gyfer pob gallu
- ▶ Mapiau i'w llwytho i lawr
- ▶ Cyfleusterau ar gyfer beiciau'n benodol
- ▶ 3D 'hedfan dros'
- ▶ Llety
- ▶ Newyddion a digwyddiadau

www.beiciobryniauclwyd.com

beicio bryniau
clwyd.com
Cwmnïddwrdd Cymru, Clwyd

PARC GWLEDIG
Loggerheads




Taith drwy'r coed, ymlacio ar lan afon, golygfeydd trawiadol, clogwyni calchfaen a chyfoeth o hanes a bywyd gwyllt..

- ▶ Hwyl i bawb
- ▶ Canolfan Cefn Gwlad Integredig
- ▶ Llwybrau Darganfod
- ▶ Caffi a Siop Offer Awyr Agored

01352 810614
loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk



www.borderlands.co.uk



Gwestai Gwely a Brecwast llety hunan arlwyio

Lleoedd i ymweld â hwy, a phethau i'w gwneud

Yng Ngogledd Ddwyrain Cymru

www.rhyl-prestatyn.co.uk

Ymweld â chalon AHNE Bryniau Clwyd
Loggerheads ac Ardal Moel Famau ewch i

www.loggerheads-wales.co.uk



am lety lleol a phethau i'w gwneud a'u gweld

Parc Gwledig Moel Famau a Choed Moel Famau




- ▶ Llwybrau i bawb
- ▶ Digon o le i barcio
- ▶ Golygfeydd gwych
- ▶ mynediad i bob llwybr ar wyneb gwastad
- ▶ Mynediad hawdd i Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa

www.forestry.gov.uk

Ewch i www.sirddinbych.gov.uk cefngwlad i lwytho taflen i lawr neu ffoniwch **01352 810614**



Blas yr Hydref

Golygfeydd heb eu hail am 3 milltir a pheint ar y diwedd

Fy hoff dymor cerdded yw'r hydref pan fo lliwiau'n ddramatig ac awel yr hydref yn bur. Ond ni fydd y syniad o bicnic yn fy ysbrydoli gymaint ag roedd yn ystod misoedd yr haf, gwell o lawer y tafarndy cynnes, tân agored, peint a bwyd cynnes. Mae'r ardal o fewn ac o gwmpas AHNE Bryniau Clwyd yn cynnig dewis eang o dafarndai sy'n ategu at y daith gerdded.

Dyma ragflas o ddwy dafarn leol a thaith gerdded fydd yn creu archwaeth at y bwyd.

Dyma dro chwe milltir yng ngogledd Bryniau Clwyd, mae yma olygfeydd syfrdanol o'r arfordir, y môr, trefi, aber, bryniau a mynyddoedd. Mae'r llwybr yn cysylltu dau anheddiad hynafol Gwaunysgor a Llanasa y naill a'r llall yn cynnig tafarndai gwledig siriol. Ar hyd y ffordd gallwch weld rhyfeddodau fel y goleudy yn y pellter, fferm wynt, plasty o Oes Elisabeth a cholomendy o'r 17fed ganrif.


Un o uchafbwyntiau'r daith yw'r ddring diymdrech i'r hen garnedd sydd ar ben Allt Gop. Dyma'r domen gladdu gynhanesyddol ail fwyaf ym Mhrydain (14 metr o uchder a 100 metr o led). Bu cyfrinachau Allt y Gop yn destun dyfalu i archeolegwyr ac i haneswyr. Yn ol y sôn hwn yw man claddu'r Frenhines Buddug. Gwyddom i sicrwydd i olion esgryn pedwar ar ddeg o bobl Neolithig ac Oes yr Efydd gael eu darganfod yn yr ogofeydd y tu isaf i'r copa. Ni chafwyd unrhyw olion pobl yn y garnedd ei hunan ac efallai iddi gael ei hadeiladu yn gofeb i'r rhai oedd yn gorwedd islaw. Awgrymwyd i'r carneddau hyn gael eu defnyddio yn orsaf arwyddo neu'n orsaf fflaglau gan y Rhufeiniaid yn ystod eu goresgyniad o'r ardal hon yn y ganrif

gyntaf Cyn Crist. Ond nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi digwydd. Beth bynnag fo'r gwirionedd, mae Allt y Gop yn lle hudolus ac enigmatig dros ben.

Ceir cofnod yn The Domesday Book o enw pentref Gwaunysgor, man cychwyn a gorffen y daith hon. Mae yma eglwys ac ynddi ffenest gwahangleifion o'r 12fed ganrif. Gan yr eglwys hon mae'r unig gofnod plwyf di-dor yng Nghymru sy'n mynd yn ôl i 1538.

Ar un adeg roedd tri o dafarnau yn y pentref ond, ysywaeth, un yn unig sy'n dal yn dafarn. Adeiladwyd **The Eagle & Child Inn** yn ffermdy yn gynnar yn yr 19eg ganrif, a chafodd ei restu'n dafarndy yng nghyfrifiad 1851. Daw'r enw o'r chwedl am wr bonheddig yn y canoloesoedd a argyhoeddodd ei wraig i fabwysiadu ei blentyn anghyfreithiol gan honni ei fod wedi dod o hyd iddo mewn nyth eryrod ar ei stad.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar roedd yma un bar gyda tân bychan, llawr linoliwm a thy bach yn y cefn. Ond datblygodd y dafarn ac erbyn hyn mae wedi ymestyn i gynnwys ystafell fwyta a gerddi cwrw a enillodd wobrau. Mae'n lle poblogaidd i gael cinio neu swper. Yn ystod yr haf mae basgedi crog deniadol yn hongian y tu allan a gweddill y flwyddyn gellir mwynhau lle cynnes, cysurus y tu mewn. I gael mwy o wybodaeth am oriau agor neu i archebu bwrdd ffoniwch 01745 856391.



Blas yr Hydref

Golygfeydd heb eu hail am 3 milltir a pheint ar y diwedd

Taith Gerdded Gylchol

(Mae'r daith gerdded hon yn y llyfryn Cerdded yng Nghefn Gwlad Sir y Fflint. Gallwch gael un o Ganolfan Cefn Gwlad Loggerheads.)

Cylch Gwaenysgor - Llanasa

Pellter: 9.6 km/6 milltir (llwybr byr 7 Km/ 4.4 milltir)

Amser: 3 - 3.5 awr

Parcio a chychwyn: Maes parcio golygfan Gwaenysgor (SJ 075 819) tua'r gogledd o bentref Gwaenysgor neu fel arall yn Llanasa (SJ 106 814).

Graddfa: Cymedrol, nifer o gamfeydd, dringo/disgyn byr

Pubs: **Yr Eryr a'r Blentyn**, Gwaenysgor

Y Llew Coch, Llanasa.

Y Daith Gerdded

1. O faes parcio Gwaenysgor troi i'r chwith a cherdded i lawr y ffordd am 200m. Pan welwch y tro llym i'r chwith trowch chi i'r dde ar hyd ymyl y goedwig. Dros y gamfa ac i'r cae gan ddilyn y ffin ar eich llaw chwith am 20m yna dros y gamfa. Dilyn y ffin chwith ar i fyny. Troi i'r de yn y gornel ac yna i'r chwith a dros y gamfa. Ymlaen i'r hanner chwith dros y cae a thros y gamfa. Ymlaen ar hyd y cae sydd a'r trosglwyddydd trydan ar y dde. Dros y gamfa a cherdded i'r hanner chwith dros gae â'r er mwyn croesi'r gamfa a chyrraedd y llwybr llydan.

2. Croesi'r llwybr llydan, dringo'r gamfa, a mynd i'r cae sydd gyferbyn. Gwyo i'r chwith dros y cae a dilyn y ffin sy ar eich llaw chwith wrth ochr y coed. Croesi'r gamfa ac ymlaen dros y cae nesaf. Croesi dwy gamfa sy'n agos at ei gilydd ar fin y goedlan a chroesi'r cae sydd o'ch blaen. Croesi'r gamfa nesaf a dilyn y llwybr cul sydd o gwmpas pwll dwr gyda gormod o dyfiant ar yr ochr dde.

'I ddefnyddio'r llwybr byr, gan osgoi Llanasa- trowch i'r dde cyn y gamfa a dilyn y ffens heibio'r pwll dwr sydd ar y chwith. Yna croesi'r gamfa sydd ar y chwith a dilyn yr arwyddion i lawr yr allt dros y caeau ac i'r ffordd.

3. Ble mae cyffordd llwybrau, troi i'r dde, gan anwybyddu'r gamfa o'ch blaen. Ymlaen ar hyd y llwybr hwn gan wyro tua'r chwith y tu hwnt i'r pwll dwr a dilyn y llwybr am tua 1.4km (gall fod yn fudr). Troi i'r dde i lwybr llydan gan ei ddilyn am 600m ac i'r ffordd. Troi i'r dde ar y ffordd, gan fynd heibio Plas Henblas (17 ganrif) ar eich llaw chwith, yna ymlaen i gyffordd yng nghanol pentref Llanasa.



Gorwedd pentref hanesyddol Llanasa rhwng bryniau sy'n 450 troedfedd uwch lefel y môr. Tybir i'r eglwys gael ei sylfaenu yn y chweched ganrif gan Asaff, ail esgob Llanelwy. Codwyd yr eglwys bresennol, gyda'i hen golomendy anghyffredin a'i chloch, ar ddiwedd yr 15 ganrif a dechrau'r 16 ganrif. Ei nodwedd fwyaf trawiadol yw'r gwydr lliw ardderchog yn y ddwy ffenest fawr ddwyreiniol, o Abaty Dinas Basing yn wreiddiol. Mae'r pentref yn llawn o adeiladau hanesyddol eraill gan gynnwys plas o'r 17 ganrif bythynnod ysgubor ddegwm a hen ysgol Oes Fictoria.

Mae'n werth ymweld â'r pentref hefyd. Lle croesawgar dros ben yw tafarn wledig y **Llew Coch** o'r 17 fed ganrif. Cewch luniaeth yn ystod neu ar ôl eich taith gerdded. Y tu mewn mae 2 far ac ystafell fwyta ar wahân. Mae yma dan agored mewn lle tân carreg sy'n creu naws clud. Busnes teulu yw'r dafarn sy'n ymfalchïo yn y Cwrw Go lawn yn ogystal â'r fwydlen eang, prydau wrth y bar, a phrif brydau sy'n defnyddio cynnwys lleol. Ar y fwydlen ceir dewis llysieuol a bwyd plant. Dylech archebu o flaen llaw ar y penwythnos. Tel. 01745 854291. Os hoffech aros yn hirach mae yma 5 ystafell ensuite a gafodd 3 seren oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru.

4. Trowch i'r dde o flaen y Llew Coch, mae yma arwyddion Gwaunysgor/Trelawnyd, heibio pwmp a llyn y pentref. Ymlaen ar hyd y ffordd am 1.5km, anwybyddu'r lôn ar y llaw chwith a'r fynedfa i Talafryn. Troi i'r chwith ar y gyffordd nesaf. Pan fo'r lôn yn troi tua'r chwith, croesi'r gamfa ar y dde gyda'r arwydd Gop Hill. Parhau ymlaen i fyny'r cae a thros y gamfa. Anwybyddu'r giât mochyn gyntaf a'r gamfa gerrig ar y dde a mynd tua'r coed. Ymlaen yn syth i groesi camfa gerig/giât mochyn mewn cornel gyda'r arwydd Gop Hill arno, anwybyddu'r giât mochyn/camfa amlwg o'ch blaen.

5. Dilyn y llwybr caniatol (saeth wen) gan wyro i'r chwith ar hyd ymyl y goedwig. Bydd y llwybr yn codi'n raddol ymhennydd ychydig a mynd drwy'r coed cyn ailymuno â'r ffin. (golygfeydd Eryri tua'r gorllewin) Ymlaen ar hyd ymyl y goedwig, gwyro toc i'r hanner-dde drwy'r coed a dilyn y llwybr dros y garnedd ar ben Allt y Gop (golygfeydd eang).

Troi'n ôl i lawr y llwybr ac, ymhennydd ychydig o fetrau, disgyn i'r dde a mynd drwy'r giât mochyn. Mynd yn groeslinol i'r chwith ac i lawr y llethr. Ymhennydd 50m troi i'r dde i frigiad o greigiau gydag ogof y tu isaf iddo. Ar ôl ymweld â'r ogof mynd yn ôl ar hyd yr un llwybr a disgyn i lwybr gwyrdd anamlwg sy'n mynd o gwmpas canol llethr Allt y Gop. Dilyn y llwybr hwn y tu uchaf i adeiladau'r fferm a cholomendy cerrig cyn wyro i'r dde a thros gamfa sydd ar waelod y cae. Ymlaen dros gamfa arall ac yna i lawr canol cae mawr gan wyro i'r chwith tua'r ffordd gan fynd heibio polyn telegraff i groesi camfa sydd o'ch blaen. Dros y cae nesaf a thros y gamfa sydd yn ei gornel ac i'r ffordd.

6. Dilyn y ffordd i'r dde i Waunysgor. (rhybudd! Ffordd Brysur!) Ymlaen ar hyd y ffordd ar i fyny ac allan o'r pentref i'r maes parcio.



Back where they Bee..long!

Bu ein gwenynen frodorol (Apis Mellifera Mellifera) yn byw yn Ynysoedd Prydain ers deg mil o flynyddoedd. Dinistriwyd llawer o'u cytreff yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif gan haint Ynys Wyth (enwyd ar ôl y lle y dechreuodd yr haint). Roedd mewnfario gwenyn i greu mwy o fêl wedi cychwyn hanner canrif ynghynt, ac er mwyn adennill y colledion dechreuodd pobl fewnfario mwy o wenyn o wledydd eraill, yn enwedig o'r Eidal a Dwyrain Ewrop.

Parasit bach iawn o'r enw 'Varroa Destructor' yw lladdwr mwyaf toreithiog ein gwenyn. Darganfuwyd yn Nyfnaint yn 1992, ac erbyn hyn mae'r gwiddonyn hwn wedi lledaenu drwy Gymru a Lloegr gan achosi colledion nifer fawr o gytreff gwenyn.

Roedd nifer o ymchwilwyr o'r farn fod ein gwenynen frodorol wedi diflannu, ond dangoswyd ei bod yn goroesi mewn rhai lleoedd yng Nghymru, Swydd Efrog ac yn yr Iwerddon yn arbennig.

Mae gan y wenynen frodorol rai nodweddion amlwg, o ran ei lliw yn arbennig. Er iddi gael ei disgrifio yn wenynen ddu, brown tywyll fel lledr yw hi mewn gwirionedd. Mae'r wenynen wedi'i haddasu ar gyfer ein hinsawdd a gall oroesi gaeafau hir ac oer. Mae'r gwenyn hyn yn perthyn i gynefin naturiol y rhostiroedd sy'n gyffredin dros Fryniau Clwyd.

Ynghyd a nifer o bobl eraill Ynysoedd Prydain rwyf yn gobeithio magu'r gwenyn hyn er mwyn sicrhau parhad y rhywogaeth ac yna'u hailgyflwyno i'r ardaloedd hynny ble maent wedi diflannu. Bûm yn cadw cychod gwenyn ein gwenyn du brodorol ers tair blynedd yng Nghoedwig Moel Famau o fewn AHNE Bryniau Clwyd.

Nid peth hawdd! Un o'r rhwystrau i fagu gwenyn o fagwraeth bur

Y wenynen yn ôl yn ei chynefin



Geoff Critchley,
Cadeirydd Cymdeithas
Gwenynwyr De Clwyd

yw ymddygiad paru'r frenhines. Mae paru'n digwydd yn yr awyr, a gall y frenhines baru gyda thua phymtheg o wenynod gwryw, bydd rhai o'r rhain wedi hedfan am 8 milltir o'u cytreff cartref. Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau paru'n golygu bod croesfridio'n digwydd. Yn anffodus, golyga hyn nad yw breninesau o fagwraeth bur yn cael eu cynhyrchu a gall nodweddion annerbyniol fel ymddygiad ymosodol ymddangos.

Mae dwy ffordd y gallwn osgoi'r croesfridio hwn, drwy ymhadiad artiffisial, sy'n ddull drud a thechnegol neu drwy greu cytreff magu mewn ardaloedd sydd ymhell o rai nad ydynt yn gynefin y wenynen frodorol. Am ein bod yn weithrediad cymharol fach nid yw'r dull cyntaf yn gost effeithiol. Penderfynodd gwenynwyr lleol Sir Ddinbych ddefnyddio'r ail ddull sef dewis safle ynysig ar Hiraethog ar gyfer paru fel y y gellir ei reoli'n well. Rydym yn cyrchu'r cychod gwenyn i'r safle o fis Mai i fis Awst er mwyn darparu gwenyn segur gwryw mewn niiferoedd digonol i'r frenhines allu magu heb fawr o groesfridio. Oherwydd ein project, gall gwenynwyr eraill yr ardal ddefnyddio ein breninesau i gryfhau'r cytreff brodorol.

Yn y pen draw, rydym yn gobeithio cyflwyno llinach newydd i'r boblogaeth leol o

wenyn a bydd hyn yn golygu ail-sefydlu ein gwenynen frodorol drwy Fryniau Clwyd a Dyffryn Clwyd.

'Mae Mâl Moel Famau o fryniau Fryniau Clwyd AHNE ar werth yng Nghanolfan Cefn Gwlad Loggerheads, neu yn uniongyrchol oddi wrth Geoff yn y Farchnad Ffermwyr Celyn yn Llanelwyr a'r Wyddgrug
(www.celynfarmersmarket.co.uk).



Teithiau cerdded i'w llwytho i lawr, gwybodaeth am y Parciau Gwledig, Bioamrywiaeth a hanes yng nghefn gwlad Sir Ddinbych ewch i

www.denbighshire.gov.uk/countryside